**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 10 Mehefin 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 25 Mehefin 2025 |

## PWNC

Eitem 6:CYNLLUN RHEOLI MAES PARCIO DINAS DINLLE

## PENDERFYNIAD

Cytunwyd i ddechrau proses ar gyfer gwneud gorchymyn parcio oddi ar y stryd barhaol ym Maes Parcio Dinas Dinlle a dirprwyo awdurdod i Bennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad a'r aelod Cabinet a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi gorchymyn fydd yn gwneud y gorchymyn arbrofol yn barhaol, ac yna rhoi rhybudd o hyn yn y wasg yn unol â'r Rheoliad 22 a 23 o'r Rheoliadau.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen cymeradwyaeth y Cabinet er mwyn bwrw ymlaen gyda chamau cyfreithiol o gyflwyno Gorchymyn Parcio Oddi ar y Stryd.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Bu i Cyng. Llio Elenid Owen eistedd ar y Cabinet fel Aelod Lleol ar gyfer yr eitem hon, ac o ganlyniad nid oedd ganddi bleidlais ar y mater.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Bu i ymgynghoriad cyhoeddus gael ei gynnal rhwng 16 Awst a 30 Medi 2024 ac adroddwyd ar yr ymatebion yn y cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 10 Mehefin 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 25 Mehefin 2025 |

## PWNC

Eitem 7:STRATEGAETH GWASTRAFF AC AILGYLCHU

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr hawl i Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu mynd i ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn derbyn adborth gan drigolion Gwynedd.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae cyhoeddi Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu yn ddilyniant naturiol i'r gwaith sydd wedi digwydd ers i'r gwasanaethau gwastraff drosglwyddo i'r Adran Amgylchedd yn ôl yn Hydref 2022. Roedd y ddogfen hon yn gosod gweledigaeth, cyfeiriad ac amcanion yr adran ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, sydd wedi ei nodi fel un flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 10 Mehefin 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 25 Mehefin 2025 |

**PWNC**

Eitem 8:CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT (FERSIWN YMGYNGHORI): RHEOLI'R DEFNYDD O DAI FEL LLETY GWYLIAU (AIL GAREFI A LLETY GWYLIAU TYMOR BYR)

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd newidiadau a awgrymir i'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus fel y cynhwysir yn yr Adroddiad Ymgynghori (Atodiad 1) a ymgorfforir yn y fersiwn diwygiedig o'r Canllaw (gweler Atodiad 2)

Mabwysiadwyd CCA: Rheoli'r Defnydd o Dai fel Llety Gwyliau (Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr) i'w ddefnyddio fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio yn Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.

Dirprwywyd yr hawl i Bennaeth Adran yr Amgylchedd wneud unrhyw addasiadau ansylweddol y gallai fod yn ofynnol i'r CCA cyn iddo gael ei gyhoeddi ar ei ffurf derfynol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen mabwysiadu'r CCA, fel y gellir ei ddefnyddio fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Bu i fersiwn drafft gael ei gymeradwy yn ôl ym mis Chwefror, ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Eglurwyd fod newidiadau wedi ei gwneud yn dilyn y cyfnod ymgynghori hwn.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gan y Cyngor am gyfnod o 6 wythnos rhwng 24 Chwefror a 7 Ebrill 2024. Adroddwyd ar yr ymatebion yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 10 Mehefin 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 25 Mehefin 2025 |

---

**PWNC**

Eitem 9:CYNLLUNIAU CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN 2025-26 GWYNEDD

---

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i ymrwymo hyd at £7,901,000 o ddyraniad 2025/26 Gwynedd o Gronfa Ffyniant Cyffredin y DG I'r 14 cynllun a nodwyd yn yr adroddiad.

Dirprwywyd yr hawl I'r Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad a’r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, Pennaeth Cyllid a’r Prif Weithredwr i gadarnhau’r manylion y cynlluniau a’r cyfraniad ariannol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn ôl ym mis Rhagfyr bu i £42.42m ei ddyrannu i Ogledd Cymru ar gyfer 2025/25 o’r Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Amlygwyd fod £7.9m ar gael yng Ngwynedd ar gyfer prosiectau.

Bu i'r Cabinet gytuno ym mis Ebrill i barhau gyda’r drefn llywodraethu ranbarthol a lleol ar gyfer blwyddyn bontio 2025/26. Gofynnwyd I'r panel roi ystyriaeth fanwl i gynlluniau unigol gan gyflwyno eu hargymhelliad yn i'r Cabinet I'w cadarnhau.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 10 Mehefin 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 25 Mehefin 2025 |

**PWNC**

Eitem 10:BLAEN RAGLEN Y CABINET

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y Blaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn unol ag Adran 14.13 o Gyfansoddiad y Cyngor, bydd y Cabinet yn rhannu ei Flaen Raglen waith am y cyfnod dilynol o chwe mis gyda'r cyhoedd. Bydd y Blaen Raglen yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 10 Mehefin 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 25 Mehefin 2025 |

## PWNC

Eitem 12:ARWEINIAD AR GYFER SYSTEM RHEOLI'R SEFYDLIAD

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd rhoi cam cyntaf prosiect DSB5 - System Rheoli'r Sefydliad yn y Cynllun Digidol ar waith er mwyn diwallu anghenion Adnoddau Dynol a Chyflogau, ond i oedi datblygiad system rheolaeth ariannol newydd tan fydd cymeradwyaeth bellach gan y Cabinet.

Cymeradwywyd rhyddhau £1.2m o adnoddau o'r Gronfa Drawsffurfio fel cyfraniad at gostau un-tro datblygu'r system Cyflogau / Adnoddau Dynol newydd.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen diweddaru system rheoli'r sefydliad o fewn y Cyngor gan fod cefnogaeth gan y darparwr presennol yn dirwyn i ben ym mis Rhagfyr 2026.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.